

# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

## Cyngor Tref Rhisga Ethol Cynghorwyr ar gyfer y Wardiau a restrir isod

Ward	Nifer y Cynghorwyr i'w hethol
Risca Danygraig	1
Risca Town and Fernlea	3
Pontymister Lower	1
Ty-Isaf Fields Road	3

1. Gellir cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn Ystafell Rhymni, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach CF82 7PG ar unrhyw ddiwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10.00am a 4.00pm (ac eithrio gwyliau banc), ond erbyn 4pm ar ddydd Mawrth 5 Ebrill 2022.
2. Fel arall, gellir cyflwyno papurau enwebu drwy e-bost i **enwebiadau@caerffili.gov.uk** erbyn 4pm ar ddydd Mawrth 5 Ebrill 2022. Dylai ffeiliau fod ar ffurf naill ai PDF neu JPEG, a nodwch enw'r ardal yr ydych yn ymgeisydd ynddi yn llinell pwnc y neges. Mae'r cyfeiriad hwn ar gyfer cyflwyno ffurflenni ffurfiol yn unig; i drefnu gwiriad anffurfiol, cysylltwch â Gwasanaethau Etholiadol.

Noder:

Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y terfynau amser gofynnol.

Nid yw derbynneb electronig o brawf bod cais wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i hysbysu ymgeiswyr o'r penderfyniad ynghylch a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.

3. Gellir cael papurau enwebu gan swyddfeydd y Swyddog Canlyniadau yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND yn ystod yr oriau uchod. Fel arall, gellir lawrlwytho set oddi ar [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

4. Os ymleddir unrhyw etholiad, cynhelir yr etholiad ar **ddydd Iau 5 Mai 2022** rhwng 7am a 10pm. Fel rhan o gynllun peilot, bydd etholwyr yn gallu pleidleisio yn gynnar yn Nhŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach CF82 7PG ar ddydd Sadwrn 30 Ebrill a dydd Sul 1 Mai, rhwng 10am a 4pm.
5. Rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND erbyn 5pm ar ddydd Mawrth 19 Ebrill 2022.
6. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND erbyn 5pm ar ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022.
7. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail anabledd, am resymau gwaith/gwasanaeth neu'r angen i gydymffurfio â deddfiad neu ganllawiau gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r coronafeirws gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Nhŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND erbyn 5pm ar ddydd Iau 5 Mai 2022. Rhaid bod yr anabledd wedi digwydd ar ôl 5pm ar ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022. I wneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth neu'r coronafeirws, rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol ar ôl 5pm ar ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022.

**Christina Harrhy**  
**Swyddog Canlyniadau**  
**Tŷ Penallta**  
**Parc Tredomen**  
**Ystrad Mynach**  
**Hengoed CF82 7PG**

**Dyddiad: 28 Mawrth 2022**